Ebrill 2004

Brîff

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

GATS yng Nghymru

Deall y Cytundeb cyffredinol ar fasnach mewn gwasanaethau

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- **yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru**
- **yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG**
- **yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir**
- **yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru**
- **yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm**

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriel Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BY
Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk

Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357, Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ
Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr

Beth yw'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (GATS)?

Mae'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (GATS) yn rhan o ddeddfwriaeth Corff Masnach y Byd (WTO) sy'n rheoli masnach ryngwladol. Mae'n ymroddiad gan aelod wledydd y WTO (146 ar hyn o bryd) i ryddhau'r sector gwasanaethau, gan mewn gwirionedd agor darpariaeth gwasanaethau sylfaenol i'r farchnad 'rydd' fyd-eang. Mae cwmpas GATS yn eang iawn – mae'r cytundeb presennol yn gymwys ar gyfer 160 o wasanaethau gan gynnwys egni, cludiant, cyllid, gofal iechyd ac addysg. O dan GATS mae aelodau'r WTO yn ymroddedig i ryddhau mwy ar wasanaethau dros amser, gan ymestyn ymhellach effaith corfforaethau ar draws pob maes o'n bywydau.

Mae trafodaethau'n cynnwys proses fargeinio, y mae'r DG yn chwaraewr mawr ynddi. Yn ystod y "cam ceisiadau" roedd y DG yn amlwg ymhlith yr aelodau oedd yn cyflwyno ceisiadau cychwynnol ar gyfer meysydd yr oeddent am i aelod wledydd "agor" i gystadleuaeth. Yn y "cam cynigion" nesaf disgwylir i aelodau gyflwyno cynigion o feysydd y maent hwy yn barod i'w "hagor". Disgwylir i'r trafodaethau olaf ddod i ben erbyn mis Ionawr 2005, ond mae anfodlonrwydd eang ymhlith gwledydd sy'n datblygu, NGO ac awdurdodau lleol yn arafu peth ar y trafodaethau.

Bydd trafodaethau a gynhelir ar hyn o bryd yn effeithio arnom ni gyd. Fel aelod o'r Undeb Ewropeaidd, bydd y DG yn rhan o unrhyw Gytundeb terfynol.

Beth mae GATS yn ei olygu i wasanaethau?

Mae'r Cytundeb, sy'n dilyn yn dynn ar sodlau rhyddhau masnach mewn nwyddau (holl ddeunyddiau, cynnyrch gwneuthuredig a bwydydd), yn ceisio chwalu rhwystrau sy'n amharu ar fasnach deg mewn gwasanaethau rhwng aelodau'r WTO. Mewn gwirionedd, bydd GATS yn creu marchnad agored gystadleuol mewn darpariaeth gwasanaeth, wrth i reoliad llywodraeth sydd wedi ei chynllunio i sicrhau lles cymdeithasol ac amgylcheddol gael ei dirymu er budd busnesau mawr. Y diffyg atebolrwydd democrataidd hwn yw'r prif reswm dros wrthwynebu GATS, yn ogystal â phroblem sylweddol yn y WTO yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cydnabod bod "GATS yn gyntaf ac yn bennaf yn offeryn er budd busnes"[1]. Mae pryderon wedi eu lleisio y gallai marchnad agored arwain at leihad mewn mynediad at wasanaethau sylfaenol ar gyfer y tlawd a safon diffygiol o wasanaeth i bawb.

Sut bydd GATS yn effeithio ar bwerau Llywodraeth y Cynulliad?

Rhan o'r broblem gyda GATS yw ei fod yn cael ei drafod yn gyfrinachol yn y WTO. Ni fu archwiliad o'r cynigion yn gyhoeddus, yn Seneddol (ar lefel UE ac aelod wledydd) na chan y Cynulliad, ac mae ceisiadau am fwy o dryloywder wedi eu gwrthod dro ar ôl tro. Gan y bydd

[1] CE (2000) *Opening World Markets for Services, Towards GATS 2000,* Tud.17

rhyddhau gwasanaethau yn effeithio ar bawb, mae'n annerbyniol bod y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal tu ôl i ddrysau caeedig.

Mae ehangiad GATS yn peryglu gallu llywodraeth ar bob lefel i reoleiddio darpariaeth gwasanaeth er budd yr economi, yr amgylchedd a phobl.

Gallai pwerau'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar gyfer trwyddedu gweithgareddau, iechyd yr amgylchedd a gwarchod y cyhoedd, sydd wedi eu cynllunio i ymyrryd ar ran cymunedau lleol, fod yn agored i sialensiau gan aelodau anniddig o'r WTO os ydynt o'r farn y bydd rheoliadau o'r fath yn peri rhwystr i fasnach rydd mewn gwasanaethau.

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi datgan na fyddai GATS yn effeithio'n anffafriol ar y pwerau rheoleiddiol domestig, eto mae geiriad dogfennau sydd wedi eu rhyddhau hyd yma wedi bod yn gul ac yn amwys, ac nid oes eglurhad wedi ei roi hyd yma pan ofynnwyd am un. Yn y bôn, byddai'r hawl i osod rheoliadau yn amodol ar feini prawf y WTO:

1. Rhaid i lywodraethau sy'n dymuno cadw rhywfaint o rym rheoliadol mewn sectorau wedi eu rhyddhau gyflwyno cyfyngiadau o'r fath cyn y deuir i'r Cytundeb terfynol. Gan na chynhaliwyd unrhyw asesiad cynhwysfawr o effaith GATS ar unrhyw lefel byddai'n anodd iawn ystyried holl ganlyniadau GATS cyn iddo gael ei roi ar waith.
2. Byddai'n rhaid i lywodraeth sy'n ceisio ailgyflwyno neu foderneiddio rheoliadau presennol mewn marchnad gwasanaethau weithio drwy feysydd anodd deddfwriaeth WTO.

- byddai'n rhaid i reoliadau gael "prawf angenrheidrwydd", i wneud yn siwr nad yw rheolau a osodir gan lywodraethau yn "fwy beichus nag sydd raid". Gan mai elw yw unig ystyriaeth y WTO, bydd GATS yn blaenoriaethu gweithio di-rwystr o'r farchnad rydd o flaen hawl llywodraethau i ddefnyddio egwyddor ragofalus fel polisi.
- bydd yn rhaid talu iawndal i bob parti a effeithir yn niweidiol gan ailgyflwyniad rheoliadau, h.y. darparwyr gwasanaeth tramor a fydd dan anfantais gan y rheoliadau.

Gall GATS danseilio pwerau Cynulliad Cymru i weithredu polisïau a ystyrir i fod o fudd cenedlaethol, a bydd mewn perygl o gael ei ddwyn gerbron y Mecanwaith Datrys Anghydfod bondigrybwyll ar gyfer unrhyw reoliad y bydd yn ei gyflwyno[2].

Gellir herio'r holl reoliadau datblygol mewn perthynas â chaffaeliad lleol a moesol, cadwedigaeth ddiwylliannol a gwarchodaeth amgylcheddol gan y WTO fel "masnach afluniol" anghyfreithlon. Mae'n hollbwysig cofio y gallai ymroddiad y Cynulliad i Ddatblygiad Cynaliadwy fod yn anghymesur ag agenda rhyddhau GATS.

[2] www.foe.co.uk/resource/briefings, (Mai 2003), *GM Trade War Looms*

Beth am wasanaethau hanfodol megis addysg a gofal iechyd?

Mae GATS yn diffinio gwasanaethau sydd i'w rhyddhau fel "unrhyw wasanaeth mewn unrhyw sector ac eithrio gwasanaethau a ddarperir wrth ymarfer awdurdod llywodraethol"[3]. Gallai ymddangos fod gwasanaethau cyhoeddus megis addysg a gofal iechyd yn cael eu hystyried i fod wedi eu heithrio o GATS, ond wrth bennu gwasanaethau cyhoeddus i fod yn "wasanaethau nas cyflenwir ar sail fasnachol, mewn cystadleuaeth gydag un neu fwy o gyflenwyr gwasanaeth" mae'n amlwg nad yw'r sicrwydd hwn yn gynhwysfawr o gwbl. Mae rhai sy'n feirniadol o'r Cytundeb wedi mynegi'r pryder y gellid edrych ar y diwydiant gofal iechyd preifat fel un mewn cystadleuaeth â'r GIG, ac felly'n dadlau y gallai'r GIG (a'n system addysg o ran hynny) eisoes gael ei gweld fel un sy'n dod o dan GATS.

Pa gamau all y Cynulliad eu cymryd i warchod ei allu i reoleiddio er budd y cyhoedd?

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn poeni y collir gallu llywodraeth i reoleiddio er gwarchod y cyhoedd a'r amgylchedd os caniateir i GATS fynd yn ei flaen.

Rhaid i'r Cynulliad weithredu yn awr i ddiogelu budd y cyhoedd rhag unrhyw ganlyniadau niweidiol posib GATS drwy:

- alw ar i drafodaethau GATS gael eu gohirio a chyflwyno adolygiad annibynnol o'r cytundeb presennol.
- comisiynu asesiad cynhwysfawr fydd ar gael yn gyhoeddus o effaith debygol GATS ar ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru a phwerau'r Cynulliad a llywodraeth leol.
- mynnu y caiff Cytundebau Amgylcheddol Amlochrog (MES – e.e. protocol Kyoto ar nwyon tŷ gwydr) eu hystyried wrth lunio a gorfodi rheolau'r WTO.

Am Ragor o Wybodaeth:

Cyfeillion y Ddaear www.foe.co.uk

GATSWatch www.gatswatch.org

Mudiad Datblygu Byd www.wdm.org

Corff Masnach y Byd www.wto.org

Adran Masnach a Diwydiant www.dti.gov.uk

[3] (GATS Erth. 1:3 [b])